*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1370 (Cy. 139)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014

*Gwnaed - - - - 23 Mai 2014*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 54A(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (**1**).

Yn unol ag adran 143(3C)(**2**) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 a daw i rym 14 o ddiwrnodau wedi'r dyddiad y'i gwneir.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Gohirio gwneud rhestrau ardrethu: dyddiad penodedig

**2.** At ddibenion adran 54A (gohirio gwneud rhestrau Cymreig ar gyfer 2015 ymlaen) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, y dyddiad penodedig yw 1 Ebrill 2017 .

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

23 Mai 2014

(**1**) 1988 p.41. Mewnosodwyd adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 30 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p.27).

(**2**) Mewnosodwyd adran 143(3C) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 30(4) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, o dan adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r adran honno yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn sy'n gohirio'r dyddiad y dylai'r rhestrau ardrethu annomestig newydd (h.y. y rhestrau lleol a'r rhestr ganolog) yng Nghymru gael eu gwneud, o 1 Ebrill 2015 i 1 Ebrill yn 2016, 2017, 2018, 2019 neu 2020. Mae'r adran honno hefyd yn sicrhau ei bod yn ofynnol wedyn gwneud rhestrau newydd bob pum mlynedd wedi hynny.

Y dyddiad a bennwyd yn y Gorchymyn ar gyfer gwneud y rhestrau yw 1 Ebrill 2017.